## CYNLLUN GWEITHREDU RHYWOGAETH:



LLun / Photo: Jim Asher, Butterfly Conservation

# BRITH PERLOG

***Boloria euphrosyne***

### Disgrifiad / Ecoleg

Mae'r Brith Perlog yn löyn byw o faint canolig sy'n cynnwys dwy 'berl' arian fawr a saith 'perl' allanol ar ochr isaf adain ôl. Maent yn dod allan ac yn gallu hedfan o ddechrau mis Ebrill tan canol mis Mehefin, gan fwydo ar neithdar blodau'r gwanwyn fel corn glas. Yng Nghymru, fe'u gwelir ar lethrau rhedyn sy'n llawn blodau ac sy'n cynnwys prysgwydd gwasgaredig. Maent yn dodwy wyau yn unigol, ar rhedyn marw neu wasarn dail gerllaw fioledau, planhigyn bwyd y lindys. Mae'r lindys yn bwydo, yn tyfu ac yna, yn treulio'r gaeaf mewn dail marw neu wasarn rhedyn, gan ddod allan yn gynnar yn y gwanwyn pan fyddant yn bwydo ar fioledau er mwyn eu paratoi ar gyfer chwileru yn y gwasarn dail.

### Ei ddosbarthiad yng Ngheredigion

Ceredigion yw un o'r tair ardal allweddol yng Nghymru ar gyfer y glöyn byw hwn. Arferai gael ei weld ar draws ardal helaeth yn y sir, mewn tua 40 o safleoedd, ond gwelwyd y cyfanswm hwn yn gostwng i 15 safle yn ystod y 1980au ac i bedwar ym 1997. Erbyn 2000, dim ond dwy gytref a oedd yn weddill, ar lethrau glaswelltog, rhedynog ar ymylon coetir rhwng Penbryn a Cheinewydd.


### A wyddoch chi?

Brith Perlog yw un o'r rhywogaethau glöyn byw sy'n dirywio gyflymaf ym Mhrydain (dirywiad o 90% yng Nghymru mewn 30 o flynyddoedd) ac mae'n cael ei warchod rhag ei werthu dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

### Ffactorau sy'n cyfrannu at y dirywiad yng Ngheredigion

- Mae colli cynefin addas yn effeithio ar y glöynnod byw.
- Yng Nghymru, arweiniodd diffyg tir pori a gwaith ymarferol arall i reoli llethrau rhedyn, at brysgwydd a gwasarn rhedyn trwchus yn mygu'r fioledau a'r ffynonellau neithdar.
- Lle mae pori gan ddefaid wedi disodli pori gan wartheg, mae'r defaid yn tueddu i orbori fioledau ac nid ydynt yn ddigon trwm i agor darnau o brysgwydd a rhedyn trwchus i fyny.

## SPECIES ACTION PLAN:




# PEARL BORDERED FRITILLARY

***Boloria euphrosyne***

### Description / Ecology

The Pearl Bordered Fritillary is a medium sized butterfly which has two large silver 'pearls' and seven outer 'pearls' on the underside hind wing. They emerge and can fly from early April until mid June, feeding on the nectar of spring flowers such as bugle. In Wales they are found on flower-rich bracken slopes with scattered scrub. The eggs are laid singly, usually on dead bracken or leaf litter near violets, the caterpillars' foodplant. The caterpillars feed, grow and then over-winter in dead leaves or bracken litter, emerging in early spring when they feed up on violets to prepare them for pupation in the leaf litter.

### Distribution in Ceredigion

Ceredigion is one of three key areas in Wales for this butterfly. It used to be widespread in the county, known at some 40 sites but this dropped to 15 in the 1980's and to four in 1997. By 2000 there were just two remaining colonies, associated with grassy, bracken slopes on woodland edges between Penbryn and New Quay.

### Did you know?

The Pearl Bordered Fritillary is one of the most rapidly declining species of butterfly in Britain (90% decline in Wales in 30 years) and is protected from sale under Schedule 5 of the Wildlife & Countryside Act 1981.

### Factors contributing to decline in Ceredigion

- The butterflies are affected by loss of suitable habitat.
- In Wales lack of grazing and other active management of bracken slopes led to the nectar sources and violets being smothered by scrub and dense bracken litter.
- Where sheep grazing has replaced cattle grazing, the sheep tend to overgraze the violets and they are not heavy enough to open up patches of dense bracken and scrub.

## Beth sy'n digwydd yn lleol?

Ym 1999, aeth Butterfly Conservation ati i gomisiynu arolygon i ddarganfod safleoedd newydd posibl ac mae'n rhoi cyngor i dirfeddianwyr a sefydliadau cadwraeth. Mae'r pedwar safle a nodwyd ym 1997 yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. O'r ddwy safle a oedd yn bodoli yn 2000, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ariannu gwaith i reoli a monitro rhedyn a phrysgwydd yng Nghwm Soden; mae'r llall yn Llangrannog mewn cyflwr gwael iawn ar hyn o bryd ac mae'n cynnwys poblogaeth fach iawn ac anhyfyw o'r brith. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn bwriadu gwneud gwaith i reoli'r prysgwydd yn 2006/7 a'r gobaith yw y bydd gwaith rheoli cadarnhaol pellach er budd brith perlog yn digwydd o ganlyniad i adolygiad 5-mlyendd Tir Gofal y fferm yn 2006.

## Targedau

- Adfer a chynnal 5 ha o gynefin magu addas yng Nghwm Soden ac 1ha yn Llangrannog erbyn 2010
- Cynnal poblogaethau hyfyw yng Nghwm Soden a Llangrannog
- Cynyddu nifer y safleoedd i lefelau 1997 (pedwar) erbyn 2015

## Beth allwch chi ei wneud i helpu

- Fel tirfeddiannwr / rheolwr yn ne-orllewin Ceredigion, gallwch reoli rhywfaint o'ch tir ar gyfer Brith perlog.
- Cadwch olwg am Frith perlog gan drosglwyddo cofnodion i Butterfly Conservation (wales@butterfly-conservation.org 0870 7706153) a chofnodwr glöynnod byw y sir, Lin Gander *lin@freeola.com*
- Byddwch yn wirfoddolwr i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol trwy helpu gyda'r gwaith i glirio prysgwydd a rhedyn yn eu safleoedd arfordirol (llanerchaeron@nationaltrust.org.uk 01545 570200)

## Rhagor o wybodaeth

- Tabl camau gweithredu (cynllun gweithredu y brith perlog rhan 2) lle mae manylion am weithredu lleol
- Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar gyfer y Brith Perlog (ar gael ar www.ukbap.org.uk)
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael www.ceredigion.gov.uk)
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad, Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA (saraha@ceredigion.gov.uk) 01545 570881
- Spencer, S.R. 2000. Pearl-bordered Fritillary National Survey. Wales: Year 3 (1999). A report to Butterfly Conservation and the Countryside Council for Wales. Unpublished report. Butterfly Conservation.
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Gymru, Butterfly Conservation 1998

**Partner arweiniol**: Butterfly Conservation, 10 Calvert Terrace, Abertawe SA1 6AR. 0870 7706153 wales@butterfly-conservation.org

**Dyddiad y cynllun a diweddariadau:** Lin Gander WTSWW 2002, S Andrews 2005 (ar ôl ymgynghori gyda CCGC a BC)

## What is being done locally?

Butterfly Conservation, funded by the Countryside Council for Wales, have commissioned surveys to find potential new sites in 1999 and provide advice to landowners and conservation organisations. The four 1997 sites are owned by the National Trust. Of the two sites occupied in 2000, the Countryside Council for Wales is funding scrub and bracken management and monitoring at Cwm Soden; the other at Llangrannog is currently in very poor condition, supporting a very small and non-viable population of the fritillary. The National Trust is planning to carry out scrub management in 2006/7 and it is hoped that further positive management for pearl-bordered fritillaries will arise from the farm's Tir gofal 5-year review in 2006.

## Target

- Restore and maintain 5 ha of suitable breeding habitat at Cwm Soden and 1ha at Llangrannog by 2010
- Maintain viable populations at Cwm Soden and Llangrannog
- Expand the number of sites to 1997 levels (four) by 2015

## What you can do to help

- As a landowner / manager in the south west of Ceredigion you can manage some of your land for Pearl bordered fritillaries.
- Look out for Pearl bordered fritillaries and pass records on to Butterfly Conservation (wales@butterfly-conservation.org 0870 7706153) and the county butterfly recorder, Lin Gander ( lin@freeola.com )
- Volunteer with the National Trust and help with scrub and bracken clearance on their coastal sites (llanerchaeron@nationaltrust.org.uk 01545 570200)

## Further information

- Actions table (Pearl bordered fritillary action plan part 2) for details of local action
- UK Pearl Bordered Fritillary Action Plan (available on www.ukbap.org.uk)

  Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (available on www.ceredigion.gov.uk)
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing, Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA (saraha@ceredigion.gov.uk) 01545 570881
- Spencer, S.R. 2000. Pearl-bordered Fritillary National Survey. Wales: Year 3 (1999). A report to Butterfly Conservation and the Countryside Council for Wales. Unpublished report. Butterfly Conservation.
- National Action Plan for Wales, Butterfly Conservation 1998

**Lead partner:** Butterfly Conservation, 10 Calvert Terrace, Swansea SA1 6AR. 0870 7706153 wales@butterfly-conservation.org

**Date of plan & updates:** Lin Gander WTSWW 2002, S Andrews 2005 (following consultation with CCW & BC)